



Cynhyrchwyd ar ran AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC
Hysbysiad i Ganolfannau
Y bobl sy'n bresennol yn yr ystafell arholi

Hoffai cyrff dyfarnu'r CGC ddarparu mwy o arweiniad ac eglurhad am rôl staff y ganolfan, ar wahân i swyddogion arholiadau a goruchwylwyr, yn yr ystafell arholi. Mae adran 17, tudalen 33, cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* yn egluro pwy all fod yn bresennol yn yr ystafell arholi.

Mae'n ddyletswydd ar bennaeth y ganolfan bob amser i gynnal gonestrwydd yr arholiad ac i sicrhau bod goruchwylwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant llawn yn eu lle ar gyfer arholiadau a phroffion ar-sgrin. Rhaid i oruchwylwyr fod wedi derbyn hyfforddiant i ymgymryd â'u dyletswyddau yn unol ag **adran 12, tudalen 21**, cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.

Mae'r rheolau canlynol yn ymwneud â staff y ganolfan ar wahân i swyddogion arholiadau a goruchwylwyr.

Gallai uwch aelodau o staff y ganolfan, fel Pennaeth Cynorthwyol, sydd wedi'i gymeradwyo gan bennaeth y ganolfan ac nad yw wedi cael cyfrifoldeb cyffredinol am baratoi'r ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad(au), fod yn bresennol ar ddechrau'r arholiad(au). Pan fydd aelodau o staff yn mynd i mewn i ystafell arholi, rhaid iddynt ddweud wrth yr uwch oruchwylwr a/neu'r swyddog arholiadau pwy ydynt a pham maen nhw yno.

Mae gan uwch aelodau o staff y ganolfan rôl glir iawn. Yn bennaf:

- cynorthwyo â'r broses o adnabod ymgeiswyr;
- ymdrin ag unrhyw faterion disgyblu;
- gwirio bod yr ymgeiswyr wedi derbyn papurau y cwestiynau cywir i'r diwrnod, dyddiad, amser, pwnc, uned/cydran a'r haen gofrestru os yn briodol;
- gwirio bod gan yr ymgeiswyr yr offer a'r deunyddiau priodol ar gyfer yr arholiad
- dechrau'r arholiad.

Ni all aelodau o staff canolfan, o dan unrhyw amgylchiadau:

- fod yn bresennol ar ddechrau'r arholiad ac yna eistedd a darllen papur cwestiynau'r arholiad cyn gadael yr ystafell arholi;
- mynd i mewn i'r ystafell arholi, gan fwriadu edrych ar bapur cwestiynau'r arholiad;
- cael gweld papur cwestiynau'r arholiad oni bai bod naill ai'r swyddog arholiadau neu oruchwylwr yn gwneud cais pendant iddo wneud hynny. Er enghraifft, nodwyd bod gwall argraffu posibl wedi digwydd ac, yn absenoldeb hysbysiad am gywiriad, bod angen i'r swyddog arholiadau gael gwirio hyn gan yr athro pwnc perthnasol cyn uwchgyfeirio'r achos i'r corff dyfarnu;
- rhoi unrhyw arwydd o'u barn ar bapur cwestiynau i'r ymgeiswyr, naill ai ar lafar neu fel arall, os bu cais iddynt archwilio'r cynnwys;
- cyfathrebu â'r ymgeiswyr, ac eithrio mewn profion Celf wedi'u hamseru ac arholiadau Ymarferol Gwyddoniaeth TAG UG/U2 CCEA a CBAC sydd ar yr amserlen, neu wrth gynnal disgyblaeth yn yr ystafell arholi. Mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol hefyd i hyfforddi ymgeiswyr, atgoffa ymgeiswyr pa ran(nau) o'r papur cwestiynau i'w hateb neu pa gwestiynau y dylent eu hateb;
- mynd i mewn i'r ystafell arholi a mynd at ymgeiswyr, naill ai i'w hannog i roi cynnig ar yr arholiad neu i gefnogi ac annog yn gyffredinol;
- mynd i mewn i'r ystafell arholi a darllen sgrïptiau ymgeiswyr.

Gellir cynnig cefnogaeth ac anogaeth ar unrhyw adeg tan y bydd yr ymgeiswyr yn mynd i mewn i'r ystafell arholi. O'r eiliad honno ymlaen maen nhw o dan amodau arholiad a rhaid cadw'n gaeth at y protocolau.